Atodiad 1 – Gwybodaeth am y Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Uned Cyfranogaeth	20 - 21
Atodiad 2 - Ffurflen Protocol Cyfranogaeth	22 - 23
Atodiad 3 - Ffurflen Hunan-Asesu	24 - 30
Rhestr Adnoddau	31

Cael Llais - Cael Dewis

Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau?*

* Mae 'Ni' yn golygu unrhyw un sy'n gofyn i blant a phobl ifanc gyfranogol. Mae gennych 'Chi' yr hawl i ddiogly y safonau hyn.

"Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis"



GWYBODAETH



Ystyr hyn yw:

- Gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei deall
- Oedolion yn gweithio gyda chi sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n agored ac yn glir.

Byddwn yn:

- Sicrhau bod pawb yn cael digon o wybodaeth i gymryd rhan yn iawn
- Dweud wrthydych chi sut y bydd y ffaith eich bod chi'n cymryd rhan yn gwneud gwahaniaeth
- Dweud wrthydych chi pwy sy'n mynd i wrando a newid pethau.

EICH DEWIS CHI

Ystyr hyn yw:

- Mai chi sy'n dewis ydych chi am gymryd rhan neu beidio
- Mai chi sy'n cael dewis gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi
- Mai chi sy'n dewis beth rydych chi'n ei wneud a sut.

Byddwn yn:

- Rhoi digon o wybodaeth ac amser i chi benderfynu ydy hyn yn rhywbeth yr ydych chi eisiau ei wneud ai peidio.



DIM GWAHANIAETHU



Ystyr hyn yw:

- Bod plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ond bod gan bob un ohonoch yr un hawl i gael dweud eich dweud am faterion sy'n bwysig i chi.
- Rydym eisiau i bawb deimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gallu cymryd rhan os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn:

- herio unrhyw wahaniaethu
- cysylltu â phlant a phobl ifanc mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd
- eich cael chi i gymryd rhan yn y pethau rydych chi am gymryd rhan ynddyn nhw.

PARCH

Ystyr hyn yw:

- Bod gan bawb gyfle i ddweud eu dweud, bod eich barn yn bwysig ac y byddwn yn ei pharchu.

Byddwn yn:

- gwrandao ar eich syniadau, eich safbwyntiau a'ch profiadau
- eich cymryd chi o ddifri ac yn eich trin chi'n deg
- gweithio gyda chi i wneud rhywbeth am y materion sy'n bwysig i chi
- gweithio gyda chi i'ch helpu i newid pethau er gwell.



BYDDWCH CHI AR EICH ENNILL HEFYD



Ystyr hyn yw:

- Ein bod ni am i chi fwynhau ac elwa o gymryd rhan
- Ein bod yn gwybod bod gennych bethau eraill i'w gwneud yn eich bywydau hefyd!
- Sicrhau bod cymryd rhan yn brofiad cadarnhaol, nid yn un negyddol.

Byddwn yn:

- gweithio mewn ffyrdd diogel, pleserus, llawn hwyl
- gwneud yn fawr o'r yr hyn rydych yn ei wybod
- gwneud pethau cadarnhaol sy'n meithrin eich hyder
- ovrdd mewn llefydd cyfeillgar sy'n hwylus i bobl ifanc
- gwerthfawrogi ac yn parchu'r hyn sydd gennych i'w gynnig.

ADBORTH

Ystyr hyn yw:

- Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwybod pa wahaniaeth rydych wedi'i wneud a sut y mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio.

Byddwn yn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am beth sy'n digwydd
- rhoi adborth i chi cyn gynted ag sy'n bosib a hynny mewn ffordd hawdd ei deall.



GWELLA EIN FFORDD O WEITHIO



Ystyr hyn yw:

- Ein bod ni eisiau dysgu a gwella ein ffordd o weithio gyda chi.

Byddwn yn:

- edrych ar ein ffordd o weithio gyda chi a sut mae gwella ar hynny

- gofyn i chi beth sydd wedi mynd yn dda a beth sydd angen ei newid
- sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i sut y byddwn ni'n cymllunio ac yn gwneud penderfyniadau.



Rheol yw'r safonau a gytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru

Cyflwyniad a Chefndir

Cael Llais -
Cael Dewis

"Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis"

Mae'r Uned Cyfranogaeth a'r Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc (**Gweler Atodiad 1**) yn gweithio i gynyddu gallu ac ymarfer er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyfrannu'n llawn at y broses o lunio penderfyniadau yng Nghymru.

Hanfod cyfranogaeth, fel y mae'r Consortiwm Cyfranogaeth a'r Uned Cyfranogaeth yn ei ddeall, yw Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fe'i crisialir hefyd yn 'niffiniad' Llywodraeth Cynulliad Cymru o gyfranogiad:

'Ystyr cyfranogaeth yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis.'

Bu datblygu set o Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn flaenoriaeth gan yr Uned Cyfranogaeth, gan weithio mewn partneriaeth â'r Consortiwm Cyfranogaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ymarferwyr a phlant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru.

Cefndir: Safonau Cenedlaethol a Nod Barcud

O 'egwyddorion craidd' cyffredin cytunedig ynglŷn â chyfranogiad, mae'r Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Uned Cyfranogaeth wedi datblygu Safonau Cenedlaethol ar gyfer cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc h.y. **safonau ansawdd** sy'n gallu darparu cyfrwng ar gyfer mesur ac asesu ymarfer cyfranogol.

Yn ei CCB yn 2005, pleidleisiodd y Ddraig Ffynici'n gadarn o blaid y Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol; yn 2006, buont yn eu treialu ochr yn ochr â phum grŵp arall o blant a phobl ifanc ledled Cymru. Cymeradwywyd dogfen derfynol y Safonau Cenedlaethol gan holl aelodau Is-Bwyllgor Cabinet Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Tachwedd 2006.

Lansiwyd y Safonau Cenedlaethol gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Seminar Safonau Cenedlaethol yr Uned Cyfranogaeth ar Ionawr 25 2007. Dygodd y Seminar ynghyd oedolion a phobl ifanc o brosiectau lleol a chenedlaethol, bob un ohonynt â buddiant personol yn natblygiad Safonau Cenedlaethol. Cynhaliwyd sesiynau gan bobl ifanc a fu'n ymwneud â threialu'r Safonau.

Sicrhau Ansawdd a Nod Barcud

Fel cyfrwng i ddatblygu ymarfer da ymhellach, mae'r Consortiwm Cyfranogaeth a'r Uned Cyfranogaeth yn awyddus i archwilio cynlluniau sicrhau ansawdd neu nodau barcud, gyda'r nod o sefydlu **nod barcud** cenedlaethol ar gyfer y Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol. Mae nod barcud yn symbol cydnabyddedig sy'n gwarantu bod set benodol o safonau wedi eu bodloni, er enghraifft nodau barcud *Buddsoddwyr mewn Pobl* neu *Sgiliau Sylfaenol*.

Comisiynodd y Consortiwm ymchwil ynglŷn â chynlluniau sicrhau ansawdd a nodau barcud sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd yn mesur ac asesu cyfranogaeth plant a phobl ifanc. Roedd enghreifftiau'n cynnwys Arolygwyr Ifanc Castell-nedd Port Talbot a 'Clywed' yng Ngwynedd. Roedd gan yr holl gynlluniau hyn brofiadau a safbwyntiau gwerthfawr i'w cyfrannu at drafodaeth ynglŷn â Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a Nod Barcud Cenedlaethol i Gymru.

Mae gweithio tuag at nod barcud yn golygu datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gweithredu ac asesu yn ôl y Safonau. Mae hefyd yn golygu treialu sut y gallai hyn weithio ledled Cymru. Y cam cyntaf yw codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Safonau ac annog sefydliadau i'w defnyddio ar gyfer hunanasesu eu hymarfer cyfredol hwy eu hunain. Mae'r adran nesaf yn esbonio sut y gellid gwneud hyn.

Sut i ddefnyddio'r Pecyn hwn

Yn dilyn yr adran flaenorol, lle'r oeddem yn esbonio cefndir y Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a'r Nod Barcud, mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y wybodaeth a ddeilliodd o'r Seminar Safonau Cenedlaethol, ac yn rhoi canllaw ar gyfer hunanasesu yn ôl y Safonau.

Beth yw'r Pecyn hwn?

Y pecyn hwn yw'r cam nesaf tuag at ddatblygu Safonau Cenedlaethol a gweithio tuag at Nod Barcud Cenedlaethol. Mae'n ffordd o ddsbarthu'r ddogfen Safonau Cenedlaethol, gydag arweiniad ynglŷn â sut i edrych ar eich ymarfer yng nghyswllt pob un o'r Safonau. Mae'n dangos i chi sut i ddechrau cronni tystiolaeth ynglŷn â sut i fodloni'r Safonau. Rydym eisiau i gynifer o bobl â phosib ymgyfarwyddo â'r Safonau Cenedlaethol a sut y maent yn berthnasol i'w hymarfer a'u cysylltiad hwy eu hunain gyda phlant a phobl ifanc o ddydd i ddydd. Mae hwn yn gyfrwng i chi ei ddefnyddio i bwysu a mesur, hunanasesu ac ystyried eich ymarfer eich hun. Mae yna ffurflen yn **Atodiad 3** i helpu chi i weithio drwy'r broses yma.

Bydd y pecyn hwn hefyd yn eich helpu i gasglu tystiolaeth i ddangos lefel cyfranogaeth plant a phobl ifanc yn eich sefydliad, er enghraifft fel rhan o arolygiad gan Estyn. Gellir defnyddio deunyddiau'r pecyn hwn mewn ysgolion i gyflawni canlyniadau dysgu o'r Fframwaith ABCh¹. Gallant hefyd gysylltu â'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol a Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru, gan eich galluogi i gasglu gwybodaeth sy'n ategu eich ymarfer o ran cyfranogaeth fel 'piler cynnal' gwaith ieuenctid.

Y gobaith cynyddol yw y bydd y Safonau Cenedlaethol yn cael eu hintegreiddio i bolisiau ac ymarfer sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Er enghraifft, maent eisoes yn cael eu hymgorffori yn yr Arweiniad Drafft ar gyfer y Cynlluniau Sengl Plant

¹ Cysylltiadau ag ABCh fel y'u dangosir yn *'Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol' Cyfnodau Allweddol 1-4 yng Nghymru (ACCAC)* a *'Canllawiau Atodol'* (ACCAC) AWDURDOD CYMWYSTERAU, CWRICWLWM AC ASESU CYMRU

a Phobl Ifanc newydd y mae'n rhaid i Bartneriaethau Fframwaith ledled Cymru eu cynhyrchu erbyn Gorffennaf 2008.

Beth nad yw'r Pecyn hwn?

Ni fydd y Safonau Cenedlaethol yn newid. Maent wedi eu pennu, ac wedi eu mabwysiadu felly ledled Cymru gan y Ddraig Ffyni a Llywodraeth Cynulliad Cymru, y naill a'r llall. Fodd bynnag, mae'r broses o benderfynu'n derfynol ynglŷn â sut y mesurir ac y profir cynnydd yn ôl y Safonau hyn yn un tymor hwy. Er enghraifft, er ein bod, yn yr adran hon, yn cynnig ffyrdd i chi fodloni'r Safonau a ffyrdd o gynnig tystiolaeth yn ôl y Safonau, nid y rhain yw'r 'dangosyddion perfformiad' mwy penodol a fydd ynghlwm wrth Nod Barcud Cenedlaethol a'r asesiad allanol o sefydliadau y bydd hyn yn ei olygu. Mae'n bosib, er enghraifft, y rhennir y Nod Barcud yn lefelau Efydd, Arian ac Aur gyda dangosyddion gwahanol i'w bodloni ar bob lefel - nid yw'r wybodaeth benodol hon yn ei lle gennym hyd yn hyn. Caiff hyn ei dreialu a'i ddatblygu dros yr 1-2 flynedd nesaf ledled Cymru (2007-09) a byddwn yn gofyn i chi a ddymunwch fod yn rhan o'r broses hon ai peidio.

Nid yw'r pecyn hwn yn honni bod yn ben y daith, yn hytrach, mae'n gam tuag at ddatblygu a gweithredu Safonau Cenedlaethol. Gan hynny, er ein bod wedi treialu'r Safonau yn helaeth gyda phobl ifanc, rydym yn dal i fod yn ymwybodol bod gwaith pellach i'w wneud parthed dealltwriaeth plant iau o'r Safonau. Rydym wedi cynnal cynllun peilot gyda phlant ysgol gynradd (oed 4+) ac fe gwblhawyd cynllun peilot trylwyr ar y Safonau yng Nghaerffili gyda phlant 6 - 11 oed. Mae Is-Grŵp Safonau'r Consortiwm Cyfranogaeth yn gweithio ar ddeunyddiau ar gyfer y Safonau i'w cynllunio'n arbennig ar gyfer plant iau. Ceir treialu pellach gyda phlant iau. Mae'r pecyn hwn felly, gan mwyaf, wedi ei seilio ar, a'i dargedu at, waith ar y Safonau gyda phobl ifanc, yn hytrach na phlant iau.

Mae'r isod yn enghraifft o sut y mae pob Safon wedi ei gyflwyno ar wahân dros yr 8 tudalen nesaf. Mae pob tudalen yn amlinellu'r Safon, sut i'w fodloni a'i brofi a sut i gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses. Nodwch- mae rhai o'r enghreifftiau tystiolaeth wedi'u dyblygu yn rhai o'r safonau-dim ond unwaith sydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth yma.

GOSODIAD Y SAFONAU

TEITL Y SAFON

“Ystyr hwn yw”:

Amlinelliad ar ffurf pwyntiau bwled – mae'r “Chi” yn cyfeirio at blant a phobl ifanc.

“Byddwn yn”:

Amlinelliad ar ffurf pwyntiau bwled – mae'r “Ni” yn cyfeirio at unrhyw un sy'n gofyn i blant a phobl ifanc gyfranogi.

“Sut i fodloni'r Safon hwn”:

Amlinelliad o sut i fodloni'r Safon hwn ar lefel sylfaenol ar gyfer hunanasesu - mae'r awgrymiadau'n uniongyrchol gysylltiedig â'r pwyntiau bwled yn “Byddwn yn”.

“Dulliau a thystiolaeth”:

Nod yr adran hon yw dangos sut i fodloni'r Safon a chynnig enghreifftiau o dystiolaeth y gellid ei defnyddio. Yn y bôn, awgrymir tair ffordd o brofi Safon. Pwysleisiwyd y rhain gan bobl ifanc yn ystod cyfnod datblygu'r Safonau.

“Sut i gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses”.

Nod yr enghreifftiau hyn yw cefnogi ymarfer da trwy gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses, pryd bynnag y mae hynny'n bosib. Mae rhifau'r awgrymiadau'n cysylltu â'r rhifau yn yr adran “dulliau a thystiolaeth”.

Safon 1- Gwybodaeth



Ystyr hyn yw:

- * Gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei deall
- * Oedolion yn gweithio gyda chi sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n agored ac yn glir.

Byddwn yn:

- * Sicrhau bod pawb yn cael digon o wybodaeth i gymryd rhan yn iawn.
- * Dweud wrthyh chi sut y bydd y ffaith eich bod chi'n cymryd rhan yn gwneud gwahaniaeth
- * Dweud wrthyh chi pwy sy'n mynd i wrando a newid pethau.

Sut i fodloni'r Safon hwn:

1. Gellir dangos o leiaf tair ffordd wahanol o ddsbarthu gwybodaeth i blant a phobl ifanc.
2. Mae ymarfer ymgynghori wedi ei gynnal ac mae plant a phobl ifanc wedi cyflwyno tystiolaeth eu bod yn gwybod pa wahaniaeth y bydd y ffaith eu bod yn cymryd rhan yn ei wneud
3. Mae tystiolaeth glir wedi ei darparu bod plant a phobl ifanc wedi cael gwybod pwy fydd yn gwrando arnynt a newid pethau.

Dulliau a thystiolaeth:

1. Siarad â / dysgu / holi plant a phobl ifanc e.e. trwy recordio sesiynau ymgynghori, defnyddio holiaduron / arolygon, tystiolaeth o gronfa ddata i ddangos i ble'r aeth y wybodaeth.
2. Dosbarthu gwybodaeth trwy sawl cyfrwng gwahanol e.e. cylchlythyr / gwefannau (my space / bebo), posterï e.e. gwefannau tystiolaeth, cylchlythyrau, posterï ar gyfer dosbarthu gwybodaeth. (Gweler **Safon 6** am dystiolaeth debyg)
3. Siarad â chynrychiolwyr plant a phobl ifanc e.e. o gynghorau ysgol, fforymau ieuencid ayb. (Gweler **Safon 2** am dystiolaeth debyg)

Sut i gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses:

1. Trafodaethau yng ngofal plant a phobl ifanc.
2. Plant a phobl ifanc yn casglu tystiolaeth o wybodaeth.

(Dylid nodi hyn – dywedodd pobl ifanc nad yw gwefannau o fewn cyrraedd pob person ifanc, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi eu gwthio i'r cyrion e.e. pobl ifanc mewn llety sy'n derbyn gofal)

Safon 2 – Eich Dewis Chi



Ystyr hyn yw:

- * Chi sy'n dewis a ydych am gyfranogi ai peidio.
- * Rydych yn dewis gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.
- * Chi sy'n dewis beth rydych chi'n ei wneud a sut.

Byddwn yn:

- * Rhoi digon o wybodaeth ac amser i chi benderfynu ydy hyn yn rhywbeth yr ydych chi eisiau ei wneud.

Sut i fodloni'r Safon hwn:

1. Rhaid cael tystiolaeth i ddangos bod plant a phobl ifanc wedi cael digon o amser a gwybodaeth er mwyn iddynt wneud dewis doeth.
2. Rhaid darparu hyn ar dri achlysur gwahanol, o leiaf.

Dulliau a thystiolaeth:

1. Holi plant a phobl ifanc wyneb yn wyneb (e.e. trwy gyfrwng fforwm ieuenctid) a ydynt eisiau cael eu cynnwys (Gweler **Safon 1** am dystiolaeth debyg). Er enghraifft, defnyddio arolygon / holiaduron ar y dechrau i weld a yw plant a phobl ifanc yn gwybod beth maen nhw'n cymryd rhan ynddo. (Gweler **Safon 4** am dystiolaeth debyg)
2. Trefnu digwyddiadau gwybodaeth rhad ac am ddim, er mwyn rhoi sail gadarn i ddewisiadau plant a phobl ifanc.
3. Defnyddio hysbysebion a phecynnau adnoddau i roi sail i ddewisiadau plant a phobl ifanc; cadw ac archwilio cofnodion o wybodaeth a ddosberthir (e.e. e-byst / post) i ddangos bod digon o wybodaeth wedi ei dosbarthu, ac amseriad hyn. (Gweler **Safon 3** am dystiolaeth debyg)
4. Defnyddio'r Ffurflen Protocol Cyfranogaeth (**gweler Atodiad 2**). Bydd hyn yn eich helpu i roi trefn ar eich meddyliau a chynllunio amser i bobl ifanc wneud penderfyniad doeth. Mae sawl fforwm ieuenctid ledled Cymru'n disgwyl i fudiadau ddefnyddio hwn cyn ymgynghori â phlant a phobl ifanc.(Gweler **Safon 6** am dystiolaeth debyg)

Sut i gynnwys pobl ifanc yn y broses hon:

1. Plant a phobl ifanc yn gofyn i blant a phobl ifanc eraill a ydynt eisiau cymryd rhan.
2. Plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a chynnal digwyddiadau i roi sail i ddewisiadau plant a phobl ifanc eraill.
3. Plant a phobl ifanc yn gweithio ar greu hysbysebion a phecynnau adnoddau i roi sail i ddewisiadau plant a phobl ifanc eraill.

Safon 3 – Dim Gwahaniaethu



Ystyr hyn yw:

- Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ond mae gan **bob un** ohonoch yr un hawl i gael dweud eich dweud am faterion sy'n bwysig i chi.
- Rydym eisiau i bawb deimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gallu cymryd rhan os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn:

- * Herio unrhyw wahaniaethu.
- * Cysylltu â phlant a phobl ifanc mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd.
- * Eich cael chi i gymryd rhan yn y pethau rydych chi am gymryd rhan ynddyn nhw.

Sut i fodloni'r Safon hwn:

1. Dangos tystiolaeth o bolisi a gweithdrefnau cyfle cyfartal.
2. Tystiolaeth o dair ffordd, o leiaf, yr ydych wedi cynnal grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc (e.e. plant a phobl ifanc anabl, plant a phobl ifanc du ac o leiafrif ethnig, plant a phobl ifanc sipsiwn a chrwydrwyr).
3. *Dangos tystiolaeth eich bod yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn pethau y maen nhw wedi dweud eu bod eisiau eu gwneud.*

Dulliau a thystiolaeth:

1. Sicrhau bod hawliau pawb yn cael eu diwallu trwy gynnwys plant a phobl ifanc o bob cefndir e.e. trwy sicrhau nad yw hysbysebu / marchnata gwybodaeth wedi ei dargedu at oed / grŵp ethnig penodol a gwneud yn siŵr bod gwybodaeth yn briodol e.e. dwyieithog. (Gweler **Safon 2** am dystiolaeth debyg)
2. Gwneud yn siŵr bod cynrychiolaeth deg o wahanol ardaloedd a chefnidiroedd e.e. cofnodion presenoldeb.
3. Trin plant a phobl ifanc â'r un parch e.e. trwy gadw cofnod o gynulliadau / cyfarfodydd traws-ddiwyllynnol sy'n dod â grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc at ei gilydd.

Sut i gynnwys pobl ifanc yn y broses hon:

1. Adborth dan arweiniad plant a phobl ifanc ynglŷn â phrofiadau plant a phobl ifanc eraill o barch o fewn y prosiect. (Gweler **Safon 4** am dystiolaeth debyg)
2. Plant a phobl ifanc yn creu proffil o'r grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r prosiect.

Safon 4 – Parch



Ystyr hyn yw:

* Mae pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud – mae eich barn yn bwysig a byddwn yn ei pharchu.

Byddwn yn:

- * Gwrando ar eich syniadau, eich safbwyntiau a'ch profiadau.
- * Eich cymryd chi o ddifri a'ch trin yn deg.
- * Gweithio gyda chi i wneud rhywbeth am y materion y dywedwch wrthym sy'n bwysig i chi.
- * Gweithio gyda chi i helpu newid pethau er gwell.

Sut i fodloni'r Safon hwn:

1. Dangos tair ffordd yr ydych chi wedi gwrando ar farn plant a phobl ifanc.
2. Dangos adborth gan blant a phobl ifanc yn cofnodi eu bod yn teimlo iddynt gael eu cymryd o ddifri a'u trin yn deg.
3. Dangos tystiolaeth o rywbeth y buoch yn gweithio arno ac a gafodd ei newid, ac a nodwyd yn bwysig gan blant a phobl ifanc.

Dulliau a thystiolaeth:

1. Ceisiwch farn plant a phobl ifanc am ba newidiadau a wnaed. Astudiwch y tasgau a berfformiwyd a'r adborth am yr hyn a wnaed ynglŷn â'r hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc oedd yn bwysig (e.e. tystiolaeth o'r hyn sydd wedi newid a chofnodion cyfarfodydd / cyflwyniadau gan fudiadau yn dweud sut maen nhw wedi newid o ganlyniad i safbwyntiau plant a phobl ifanc).
2. Gofyn i blant a phobl ifanc sut maen nhw'n teimlo bod rhywun wedi gwrando arnyn nhw, a phwy maen nhw'n meddwl sydd wedi gwrando arnyn nhw.
3. Gwneud yn siŵr bod sianelau cyfathrebu da yn bodoli er mwyn i blant a phobl ifanc allu cyflwyno eu safbwyntiau i'r mudiadau yn rhwydd e.e. dangos enghreifftiau o'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd.

Sut i gynnwys pobl ifanc yn y broses hon:

1. Defnyddio holiaduron a gynlluniwyd gan blant a phobl ifanc i holi plant a phobl ifanc eraill am eu safbwyntiau a'u blaenoriaethau. (Gweler **Safon 2** am dystiolaeth debyg)
2. Y plant a'r bobl ifanc eu hunain yn dweud beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu â nhw.
3. Y plant a'r bobl ifanc eu hunain yn gofyn am newidiadau a wnaed ac yn eu cofnodi, ac yn cofnodi adborth a dderbyniasant, a gan bwy am y materion a godwyd ganddynt. (Gweler **Safon 3** am dystiolaeth debyg)

Safon 5 – Byddwch Chi Ar Eich Ennill Hefyd



Ystyr hyn yw:

- * Rydym am i chi fwynhau ac elwa o gymryd rhan.
- * Rydym yn gwybod bod gennych bethau eraill i'w gwneud â'ch bywydau hefyd!
- * Gwneud yn siŵr bod cymryd rhan yn brofiad cadarnhaol, nid yn un negyddol.

Byddwn yn:

- * Gweithio mewn ffyrdd diogel, hwyliog a phleserus.
- * Gwneud y gorau o'r hyn yr ydych yn ei wybod.
- * Gwneud pethau cadarnhaol sy'n meithrin eich hyder.
- * Cwrdd mewn llefydd cyfeillgar sy'n hawdd i bob person ifanc eu defnyddio.
- * Gwerthfawrogi a pharchu'r hyn sydd gennych i'w gynnig.

Sut i fodloni'r Safon hwn:

1. Casglu tystiolaeth gan blant a phobl ifanc i ddangos ei fod wedi bod yn hwyl.
2. Dangos sut y gwnaethoch gynyddu gwybodaeth a hyder plant a phobl ifanc ac amlinellu tri gweithgarwch a gynhaliwyd i gyflawni hyn.
3. Cofnodi ble rydych chi'n cyfarfod a sut mae'r lle yn addas ar gyfer plant a phobl ifanc.
4. Dangos sut rydych chi wedi cytuno â phlant a phobl ifanc ymlaen llaw ynglŷn â'r ffordd orau o gydnabod / gwobrwyo / ad-dalu eu cyfraniadau.

Dulliau a thystiolaeth:

1. Gofyn i blant a phobl ifanc arsylwi cyfarfodydd / gweithgareddau i weld a ydyn nhw'n hwyl ac a fydden nhw'n mynd yn ôl yno eto e.e. defnyddio dyddiaduron fideo.
2. Ymateb i safbwynt pawb – bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael rhywbeth gwahanol allan o'r profiad, a bydd hyn yn rhoi gwerth a pharch i'w cyfraniadau, trwy dystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn cael cydnabyddiaeth neu ad-daliad e.e. cymwysterau, achrediad, talebau, tystysgrifau ayb.
3. Gwerthusiadau ar y dechrau ac ar y diwedd i weld sut mae pobl ifanc yn teimlo eu bod ar eu hennill. (Gweler **Safon 7** am dystiolaeth debyg)

Sut i gynnwys pobl ifanc yn y broses hon:

1. Cael plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ble ddylen nhw gyfarfod, pa weithgareddau y dylid eu cynnal a beth sy'n gydnabyddiaeth / gwobr briodol am eu cyfraniad.
2. Plant a phobl ifanc yn monitro ymatebion plant a phobl ifanc eraill am weithgareddau y buont yn rhan ohonynt.
3. Gwerthusiadau dechrau / diwedd yn cael eu cynllunio a'u harwain gan blant a phobl ifanc.

Safon 6 – Adborth



Ystyr hyn yw:

* Mae'n wirioneddol bwysig eich bod yn gwybod pa wahaniaeth rydych wedi'i wneud a sut y mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio.

Byddwn yn:

* Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am beth sy'n digwydd.

* Rhoi adborth i chi cyn gynted ag sy'n bosib a hynny mewn ffordd sy'n hawdd i bawb ei deall.

Sut i fodloni'r Safon:

1. Dangos tystiolaeth eich bod wedi gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r hyn a drefnwyd / cynlluniwyd yn wreiddiol (gweler y Protocol Cyfranogaeth yn Atodiad 2).

2. Nodi dyddiadau derbyn adborth a chofnod o sut y'i cyflwynwyd.

Dulliau a thystiolaeth:

1. Diweddarau gwefannau y cytunwyd arnynt yn rheolaidd gydag adborth a dderbyniwyd, a darparu llwybrau ar gyfer cyflwyno adborth ar y we e.e. MSN / e-bost / myspace / bebo.

2. Pennu dyddiadau gyda phlant a phobl ifanc ar gyfer derbyn adborth a defnyddio'r ffôn (siarad neu neges destun) i roi adborth i blant a phobl ifanc e.e. cofnod o ba mor aml ac at bwy yr anfonir gwybodaeth. (Gweler **Safon 2** am dystiolaeth debyg)

3. Diweddarau hysbysfyddau / posteri y cytunwyd arnynt yn rheolaidd gydag adborth a dderbyniwyd a darparu llwybrau cyfathrebu ar gyfer cyflwyno adborth e.e. tystiolaeth ysgrifenedig / ar bapur – cylchlythyrau / taflenni / adroddiadau / cylchgronau / cofnodion a thystiolaeth ar y we. (Gweler **Safon 1** am dystiolaeth debyg)

Sut i gynnwys pobl ifanc yn y broses hon:

1. Plant a phobl ifanc yn monitro gwefannau i chwilio am adborth.

2. Plant a phobl ifanc yn pennu dyddiadau/fformat ar gyfer adborth.

3. Plant a phobl ifanc yn monitro hysbysfyddau i chwilio am adborth ayb.

Safon 7 – Gwella Ein Ffordd o Weithio



Ystyr hyn yw:

- * Rydym eisiau dysgu a gwella ein ffordd o weithio gyda chi.

Byddwn yn:

- * Edrych ar ein ffordd o weithio gyda chi a sut i'w wella.
- * Gofyn i chi beth sydd wedi mynd yn dda a beth sydd angen ei newid.
- * Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i sut y byddwn ni'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.

Sut i fodloni'r Safon hwn:

1. Tystiolaeth o adborth gan blant a phobl ifanc a chamau a gymerwyd i weithredu ar yr adborth.
2. Tynnu sylw at yr hyn y dylid ei newid yn dilyn argymhellion plant a phobl ifanc a'r camau yr ydych yn mynd i'w cymryd i fynd i'r afael â'r rhain.
3. Dangos tair ffordd y mae barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar y gwasanaeth / mudiad.

Dulliau a thystiolaeth:

1. Pennu nodau ac amcanion ar y dechrau, a'u hadolygu ar y diwedd. (Gweler **Safon 5** am dystiolaeth debyg)
2. Adolygu a yw pethau'n gweithio wrth fynd ymlaen e.e. cynlluniau gwaith yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc, gyda chynlluniau gweithredu ynglŷn â sut i wella'r ffordd o weithio, yn sgîl safbwyntiau plant a phobl ifanc.
3. Ymweld â chlybiau ieuenctid, ysgolion a llefydd eraill y mae grwpiau o blant a phobl ifanc yn ymgynnull, i gasglu eu barn am sut i wella eich gwaith e.e. tystiolaeth o adborth gan blant a phobl ifanc wedi ei hymgorffori mewn cynlluniau a phenderfyniadau.

Sut i gynnwys pobl ifanc yn y broses hon:

1. Plant a phobl ifanc yn cyfrannu at y nodau a'r amcanion e.e. cyd-gynllunio gyda grŵp llywio / ymgynghori plant a phobl ifanc.
2. Plant a phobl ifanc yn nodi beth allai fod yn well ac adolygu cynnydd yn rheolaidd.
3. Plant a phobl ifanc yn cynnal gwerthusiadau dan arweiniad cyfoedion gyda grwpiau / mudiadau eraill e.e. arolygwyr pobl ifanc.

PA GYMORTH SYDD AR GAEL A BETH NESAF?

O ran cyfranogaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru, mae nifer o strwythurau sefydledig ac unigolion ar lefel leol a chenedlaethol sy'n gallu darparu gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth. Dyma rai ohonynt:

Cefnogaeth a rhwydweithiau cenedlaethol a lleol yng Nghymru

Yr Uned Cyfranogaeth, sydd wedi ei lleoli gydag Achub y Plant (Cymru). Cyswllt Anna Skeels a.skeels@savethechildren.org.uk rhif ffôn 02920 396838 a participationunit@savethechildren.org.uk

Consortiw m Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru, sydd wedi ei lleoli gydag Achub y Plant (Cymru). Cyswllt Eleri Thomas ar 02920 396838

Prosiect Cyfranogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Is-adran Cyfleoedd Dysgu i leuenctid ac Oedolion. Cyswllt Karron Williams 02920 826592 karron.Williams@wales.gsi.gov.uk

Gwefan Menter Pobl Ifanc Carnegie a '*Participation Works*' www.carnegieuktrust.org.uk/cypi/home a www.participationworks.org.uk

Y Ddraig Ffyni, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru www.funkydragon.org

Grwpiau Cyfnewid Ymarfer Hawliau Plant (Gogledd a De Cymru) Plant yng Nghymru 02920 342434

Cydlynwyr Fforwm leuenctid Cymru – Cynrychiolydd ar y Consortiw m Cyfranogaeth David Rees david.rees@blaenau-gwent.gov.uk.

Ceir mwy o wybodaeth am bob Fforwm Ieuenctid at wefan y Ddraig Ffyfnci www.funkydragon.org. Mae'r wefan hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am Weithwyr Cyfranogaeth Lleol.

Prosiect Cyngor Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyswllt Jane Harries ar jane.harries@wales.gsi.gov.uk a www.schoolcouncilswales.org.uk

Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogaeth Cymru, wedi ei leoli gyda Phlant yng Nghymru. Cyswllt Ed Janes ar 02920 342434 neu ed.janes@childreninwales.org.uk

Stephen Berry, Gweithiwr Cyfranogaeth 0-10 oed, Fframwaith Caerffili dros Bartneriaeth berrys1@caerphilly.gov.uk

O ran y Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc eu hunain, gall yr Uned Cyfranogaeth, Prosiect Cyfranogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac aelodau'r Consortiwm Cyfranogaeth (**Gweler Atodiad 1**) roi gwybodaeth allweddol i chi. Mae'r Safonau Cenedlaethol hefyd i'w gweld yn adran y Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogaeth ar wefan Plant yng Nghymru www.plantynghymru.org.uk

Ar ben hynny, fodd bynnag, mae llawer o brosiectau a mudiadau lleol wedi bod yn gweithio gyda'r sefydliadau cenedlaethol hyn i ddatblygu'r Safonau Cenedlaethol, gan gynnwys pawb a ddaeth i'n Seminar Safonau Cenedlaethol. Mae'r prosiectau lleol hyn yn cynnwys:

- Prosiectau Arolygwyr Ifanc Castell-nedd Port Talbot ac Arolygwyr Ifanc Sir y Fflint j.weaver@npt.gov.uk ac elin.Gwynedd@flintshire.gov.uk
- Clywed, Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd yng Ngwynedd 01286 672922

Beth nesaf?

Cyflawnir gwaith ar gysylltu'r Safonau â fframweithiau arolygu allanol a datblygir cynlluniau ar gyfer Nod Barcud Cenedlaethol ar gyfer y Safonau.

Ymgeisir am nawdd ac fe'i defnyddir i gefnogi'r broses o greu a threialu Tîm Craidd a fydd yn sefydlu, datblygu a chefnogi datblygiad cenedlaethol y Nod Barcud a'i ddefnyddio'n lleol. Bydd timoedd lleol o ddefnyddwyr gwasanaeth a mudiadau partner ledled Cymru hefyd yn cael eu cefnogi, eu hyfforddi a'u hadnoddu i dreialu'r Nod Barcud, gyda chefnogaeth y Tîm Craidd. Os hoffai eich mudiad gymryd rhan yn y cynllun peilot hwn, yna cysylltwch ag Anna Skeels yn yr Uned Cyfranogaeth (**Gweler uchod**). Defnyddir y nawdd i gynhyrchu'r deunyddiau, yr adnoddau hyfforddi a'r strwythurau sydd eu hangen i alluogi'r prosiect i gael ei gyflawni.

Yn fras, gallai peilot Nod Barcud weithio trwy ddilyn y camau isod:

- (a) Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a mapio'r sefyllfa gyfredol
- (b) Sefydlu Tîm Craidd cenedlaethol a datblygu Nod Barcud model
- (c) Hyfforddi a chefnogi timoedd asesu Safonau a Nod Barcud lleol
- (d) Asesiad lleol o wasanaethau cyhoeddus gan dimoedd lleol a chenedlaethol a defnyddio'r Safonau a'r Nod Barcud.

Y nod fyddai treialu'r camau hyn rhwng 2007 a 2009. Y gobaith yw y byddai hynny'n esgor ar ddarlun clir o sut y gallai Nod Barcud Cenedlaethol weithredu a datblygu er mwyn sicrhau cyfranogaeth plant a phobl ifanc ac, yn fwy eang, ymgysylltu dinasyddion ym maes gwasanaethau cyhoeddus.

I gloi

Y nod hirdymor, eithaf, yw cael set o Safonau Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc, gyda Nod Barcud Cenedlaethol ynghlwm wrthynt, a'r rheini'n cael eu cymhwyso a'u cydnabod yn genedlaethol. Yn y tymor byr, mae'r pecyn hwn yn rhoi arweiniad cychwynnol i fudiadau, mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc, er mwyn iddynt ddechrau archwilio eu hymarfer cyfredol. Mae'r Safonau'n gyfrwng ar gyfer edrych ar y broses o gyfranogiad plant a phobl ifanc – Ydyn nhw'n cael y wybodaeth iawn? Ydych chi'n rhoi adborth iddyn nhw? Ydyn nhw ar eu hennill trwy gyfranogi? Trwy ddechrau eu defnyddio fel canllaw, gall pob un ohonom wella ein hymarfer.

ATODIAD 1 – Gwybodaeth am y Consortiwm Cyfranogaeth a'r Uned Cyfranogaeth

Consortiwm Cyfranogaeth

Mae'r Consortiwm Cyfranogaeth yn gorff strategol aml-asiantaeth sy'n gweithio ar lefel genedlaethol i ddatblygu gallu ac ymarfer ym maes cyfranogaeth plant a phobl ifanc (0 -25 oed) yn y broses o lunio penderfyniadau yng Nghymru. Crëwyd y Consortiwm yn 2003 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ei aelodau cyfredol yn cynnwys Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du, Rhwydwaith Pobl Ifanc Ddu Caerdydd, Plant yng Nghymru, Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS), Y Ddraig Ffyni, Fframwaith Cydlynwyr Partneriaethau, Tros Gynnal, Lleisiau mewn Gofal, Achub y Plant, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Canllaw Ar-lein, CLIC, Isadran Dysgu Oedolion ac Ieuenctid Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa Comisiynydd y Plant, Gweithwyr Fforwm Ieuenctid, NSPCC, CEWC, CAF/CASS, Menter Pobl ifanc Carnegie, Barnardos, Prif Swyddogion Ieuenctid, NCH, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Estyn.

Mae gweithredu fel consortiwm i ddatblygu cyfranogaeth yn sicrhau cydlyniant a rhannu arferion da; mae'n osgoi dyblygu ac mae'n cydnabod amrywiaeth. Cadeirydd yr Uned Cyfranogaeth yw Achub y Plant

Yr Uned Cyfranogaeth

Derbyniodd y Consortiwm Cyfranogaeth gyllid trwy Gynllun Grantiau Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i sefydlu Uned Cyfranogaeth yn 2004. Cartrefir yr Uned Cyfranogaeth gydag Achub y Plant ar ran y Consortiwm, fe'i llywir gan y Consortiwm, ac mae'n gweithredu fel 'adain' ddarparu a phwynt cydlynio canolog i'r Consortiwm.

Mae rhai o flaenoriaethau gwaith yr Uned Cyfranogaeth yn cynnwys: datblygu a gweithredu Safonau Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cenedlaethol a Nod Barcud; datblygu Hyfforddiant ar gyfer Hyfforddwyr ym maes Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc a datblygu gallu pobl ifanc i gyflwyno hyfforddiant ar gyfranogiad; codi ymwybyddiaeth ynghylch cyfranogaeth a rhannu enghreifftiau

i ymarfer da trwy ganllawiau ymarfer da, gwefannau, e-fwletinau, digwyddiadau a chronni sylfaen dystiolaeth ynglŷn ag effeithiau a buddiannau cyfranogaeth plant a phobl ifanc.

Gweithio Ynghyd

Mae'r Consortiwm a'r Uned Cyfranogaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Phrosiect Cyfranogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'i gylch gorchwyl yw cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc yng ngwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru e.e. drafftio polisiau a dogfennau sy'n ystyriol o blant, cynnwys plant a phobl ifanc wrth recriwtio ar gyfer swyddi yn y Cynulliad.

Credir bod cyfranogaeth ystyrion gan blant a phobl ifanc yng ngwaith yr Uned a'r Consortiwm yn gwbl allweddol, fel ag yw gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr cyfranogaeth ledled Cymru.

Cysylltiadau

Os carech chi gael rhagor o wybodaeth am waith y Consortiwm Cyfranogaeth a'r Uned Cyfranogaeth, cysylltwch ag:

Eleri Thomas, Cadeirydd, y Consortiwm Cyfranogaeth 02920
396838

Anna Skeels, Rheolwraig yr Uned Cyfranogaeth, ar 02920 396838


ATODIAD 2 - Ffurflen Protocol Cyfranogaeth


	<p style="text-align: center;">Cyfranogaeth Pobl Ifanc</p> <p>Mae sawl strategaeth leol ar gyfer cyfranogaeth pobl ifanc (naill ai trwy Fforwm leuentid neu ryw drefniadau cyffelyb) yn pennu gofyniad bod rhaid rhoi manylion priodol i'r Fforwm leuentid neu'r mudiad ynglŷn â'r cais am gyfranogiad pobl ifanc ac am y broses a fydd yn dilyn. Mae hyn yn rhan o'r protocol ar gyfer gweithredu cyfranogaeth pobl ifanc er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn foesol, a bod cyfranogaeth pobl ifanc yn cael ei werthfawrogi, ei gydnabod a'i ddefnyddio.</p> <p>Byddem yn ddiolchgar felly pe baech yn ymateb i'r cwestiynau canlynol. Dangosir yr ymatebion hyn i'r bobl ifanc a fydd, o bosib, yn cyfranogi yn y darn o waith y gofynnir amdano.</p> <p>Gofynnir i chi ddychwelyd y ffurflen hon i'r Fforymau leuentid lleol, neu'ch cysylltwyr ym maes cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc.</p>
1	Mudiad: Manylion Cyswllt Llawn:
2	Math o Weithgarwch (e.e. Ymgynghoriad, Grŵp, Cyfarfod, Digwyddiad neu Brosiect): Teitl y Gweithgarwch:
3.	Beth yw dyddiad cwblhau'r darn hwn o waith / neu ddyddiad y digwyddiad?
4.	Allwch chi ddarparu nodau ac amcanion clir ynglŷn â phwrpas cyfranogaeth pobl ifanc, a beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni?
5.	Allwch chi ddarparu fframwaith clir ynglŷn â sut bydd syniadau a gwybodaeth gan y bobl ifanc yn cael eu trosi'n bolisi / adran gwasanaeth?
6.	Ydych chi'n gallu darparu tystiolaeth y bydd gan bobl ifanc bosibilrwydd realistig o newid / dylanwadu ar y broses o lunio penderfyniadau yn dilyn eu cyfranogaeth?


7.	<p>Pa ddulliau cyfranogol ydych chi'n gobeithio eu defnyddio? A fydd yr arddull, dull a chynnwys yn denu pobl ifanc? E.e. Grwpiau trafod, paneli safbwynt, gweithdai, gweithgareddau ayb.</p> <p>Ydych chi eisiau i staff y Fforwm gyflawni darn o waith ar eich rhan NEU ydych chi eisiau cwrdd â'r bobl ifanc eich hun?</p> <p>(Os ydych chi, mae'n bosib y byddai angen i ni gwrdd i drafod y dull a'r cynnwys a sut y byddwch yn cynnwys y bobl ifanc a sicrhau bod y broses yn addas).</p>
8.	<p>Rhowch fanylion nifer y cyfranogwyr sydd eu hangen, ac os mai mynychu cyfarfod/digwyddiad yw'r gweithgarwch, rhowch fanylion y lleoliad, amser dechrau a gorffen ac unrhyw drefniadau cludiant.</p>
10.	<p>Yn dilyn cyfranogaeth pobl ifanc mae angen 'adroddiadau adborth' arnom i ddangos i bobl ifanc sut mae eu cyfraniad wedi cyfrannu ar y broses llunio penderfyniadau. Ydych chi'n gallu darparu adroddiad o'r fath o fewn pedair wythnos i'r digwyddiad*:</p> <p>Ydych chi'n gallu darparu unrhyw adborth pellach ynghylch unrhyw gynnydd neu ddatblygiad sy'n seiliedig ar fewnbwn pobl ifanc, hyd at ychydig fisoedd yn ddiweddarach?</p> <p>* Mae'n bosib bod y gyfranogaeth yn dal i fynd!</p>
11.	<p>Ydych chi'n gallu cynnig unrhyw wobr neu gymhelliant i'r bobl ifanc am eu cyfranogaeth? (Mae hyn yn ddewisol)</p>
12.	<p>Pwy yw derbynnydd olaf safbwyntiau pobl ifanc neu waith a gynhyrchir yn dilyn eu cyfranogaeth?</p> <p><i>Gyda sawl strategaeth leol, mae fforymau'n cadw'r hawl i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn canlyniadau terfynol y darn hwn o waith trwy adroddiad adborth ar gyfer pobl ifanc. Os nad yw pobl ifanc yn derbyn hyn, neu'n wir os nad ydynt yn derbyn gwybodaeth ddigonol, gallai pobl ifanc ddewis rhoi gwerthusiad o'r broses i'r derbynnydd terfynol.</i></p>


Enw :.....Llofnod:.....


Dyddiad:


<p>Safon 1- Gwybodaeth</p> <p>Ystyr hyn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei deall * Oedolion yn gweithio gyda chi sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n agored ac yn glir. 	<p>Dulliau a thystiolaeth i gefnogi cyraedd y safon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>Ffyrdd y cynhwyswyd pobl ifanc yn y broses hon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>WEDI CWRDD </p>	<p>HEB GWRDD X</p>
<p>Byddwn yn:</p> <p><i>Sicrhau bod pawb yn cael digon o wybodaeth i gymryd rhan yn iawn.</i></p> <p>Sut:</p> <p>Gellir dangos o leiaf <i>tair</i> ffordd wahanol o ddsbarthu gwybodaeth i blant a phobl ifanc.</p>				
<p><i>Dweud wrthyh chi sut y bydd y ffaith eich bod chi'n cymryd rhan yn gwneud gwahaniaeth</i></p> <p>Mae ymarfer ymgynghori wedi ei gynnal ac mae plant a phobl ifanc wedi cyflwyno tystiolaeth eu bod yn gwybod pa wahaniaeth y bydd y ffaith eu bod yn cymryd rhan yn ei wneud</p>				
<p><i>Dweud wrthyh chi pwy sy'n mynd i wrando a newid pethau</i></p> <p>Mae tystiolaeth glir wedi ei darparu bod plant a phobl ifanc wedi cael gwybod pwy fydd yn gwrando arnynt a newid pethau.</p>				


<p>Safon 2 – Eich Dewis Chi</p> <p>Ystyr hyn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Chi sy'n dewis a ydych am gyfranogi ai peidio. * Rydych yn dewis gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi. * Chi sy'n dewis beth rydych chi'n ei wneud a sut. 	<p>Dulliau a thystiolaeth i gefnogi cyraedd y safon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>Ffyrdd y cynhwyswyd pobl ifanc yn y broses hon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>WEDI CWRDD</p> 	<p>HEB GWRDD</p> <p>X</p>
<p>Byddwn yn:</p> <p><i>Rhoi digon o wybodaeth ac amser i chi benderfynu ydy hyn yn rhywbeth yr ydych chi eisiau ei wneud.</i></p> <p>Sut:</p> <p>Rhaid cael tystiolaeth i ddangos bod plant a phobl ifanc wedi cael digon o amser a gwybodaeth er mwyn iddynt wneud dewis doeth.</p> <p>Rhaid darparu hyn ar dri achlysur gwahanol,</p>				

<p>Safon 3 – Dim Gwahaniaethu</p> <p>Ystyr hyn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ond mae gan bob un ohonoch yr un hawl i gael dweud eich dweud am faterion sy'n bwysig i chi. * Rydym eisiau i bawb deimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gallu cymryd rhan os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. 	<p>Dulliau a thystiolaeth i gefnogi cyraedd y safon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>Ffyrdd y cynhwyswyd pobl ifanc yn y broses hon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>WEDI CWRDD </p>	<p>HEB GWRDD X</p>
<p>Byddwn yn:</p> <p><i>Herio unrhyw wahaniaethu.</i></p> <p>Sut:</p> <p>Dangos tystiolaeth o bolisi a gweithdrefnau cyfle cyfartal.</p>				
<p><i>Cysylltu â phlant a phobl ifanc mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd.</i></p> <p>Tystiolaeth o dair ffordd, o leiaf, yr ydych wedi cynnal grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc (e.e. plant a phobl ifanc anabl, plant a phobl ifanc du ac o leiafrif ethnig, plant a phobl ifanc sipsiwn a chrwydrwyr).</p>				
<p><i>Eich cael chi i gymryd rhan yn y pethau rydych chi am gymryd rhan ynddyn nhw.</i></p> <p>Dangos tystiolaeth eich bod yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn pethau y maen nhw wedi dweud eu bod eisiau eu gwneud</p>				

<p>Safon 4 - Parch</p> <p>Ystyr hyn yw:</p> <p>* Mae pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud – mae eich barn yn bwysig a byddwn yn ei pharchu.</p>	<p>Dulliau a thystiolaeth i gefnogi cyraedd y safon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>Ffyrdd y cynhwyswyd pobl ifanc yn y broses hon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>WEDI CWRDD </p>	<p>HEB GWRDD X</p>
<p>Byddwn yn: <i>Gwrandu ar eich syniadau, eich safbwyntiau a'ch profiadau.</i></p> <p>Sut: Dangos tair ffordd yr ydych chi wedi gwrandu ar farn plant a phobl ifanc.</p>				
<p><i>Eich cymryd chi o ddifri a'ch trin yn deg.</i></p> <p>Dangos adborth gan blant a phobl ifanc yn cofnodi eu bod yn teimlo iddynt gael eu cymryd o ddifri a'u trin yn deg.</p>				
<p><i>Gweithio gyda chi i wneud rhywbeth am y materion y dywedwch wrthym sy'n bwysig i chi. Gweithio gyda chi i helpu newid pethau er gwell.</i></p> <p>Dangos tystiolaeth o rywbeth y buoch yn gweithio arno ac a gafodd ei newid, ac a nodwyd yn bwysig gan blant a phobl ifanc.</p>				

<p>Safon 5 – Byddwch Chi Ar Eich Ennill Hefyd</p> <p>Ystyr hyn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> * Rydym am i chi fwynhau ac elwa o gymryd rhan. * Rydym yn gwybod bod gennych bethau eraill i'w gwneud â'ch bywydau hefyd! * Gwneud yn si?r bod cymryd rhan yn brofiad cadarnhaol, nid yn un negyddol. 	<p>Dulliau a thystiolaeth i gefnogi cyraedd y safon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>Ffyrdd y cynhwyswyd pobl ifanc yn y broses hon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>WEDI CWRDD </p>	<p>HEB GWRDD X</p>
<p>Byddwn yn: <i>Gweithio mewn ffyrdd diogel, hwyliog a phleserus.</i></p> <p>Sut: Casglu tystiolaeth gan blant a phobl ifanc i ddangos ei fod wedi bod yn hwyl.</p>				
<p><i>Gwneud y gorau o'r hyn yr ydych yn ei wybod. Gwneud pethau cadarnhaol sy'n meithrin eich hyder.</i></p> <p>Dangos sut y gwnaethoch gynyddu gwybodaeth a hyder plant a phobl ifanc ac amlinellu tri gweithgarwch a gynhaliwyd i gyflawni hyn.</p>				
<p><i>Cwrdd mewn llefydd cyfeillgar sy'n hawdd i bob person ifanc eu defnyddio.</i></p> <p>Cofnodi ble rydych chi'n cyfarfod a sut mae'r lle yn addas ar gyfer plant a phobl ifanc.</p>				
<p><i>Gwerthfawrogi a pharchu'r hyn sydd gennych i'w gynnig.</i></p> <p>Dangos sut rydych chi wedi cytuno â phlant a phobl ifanc ymlaen llaw ynglyn â'r ffordd orau o gydnabod / gwobrwyo / ad-dalu eu cyfraniadau.</p>			<p>29</p>	

Safon 6 – Adborth Ystyr hyn yw: * Mae'n wirioneddol bwysig eich bod yn gwybod pa wahaniaeth rydych wedi'i wneud a sut y mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio.	Dulliau a thystiolaeth i gefnogi cyraedd y safon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)	Ffyrdd y cynhwyswyd pobl ifanc yn y broses hon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)	WEDI GWRDD 	HEB GWRDD X
Byddwn yn: <i>Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am beth sy'n digwydd.</i> Sut: Dangos tystiolaeth eich bod wedi gwneud yn siwr bod plant a phobl ifanc yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglyn â'r hyn a drefnwyd / cynlluniwyd yn wreiddiol (gweler y Protocol Cyfranogaeth yn Atodiad 2).				
<i>Rhoi adborth i chi cyn gynted ag sy'n bosib a hynny mewn ffordd sy'n hawdd i bawb ei deall.</i> Nodi dyddiadau derbyn adborth a chofnod o sut y'i cyflwynwyd.				

<p>Safon 7 –Gwella Ein Ffordd o Weithio</p> <p>Ystyr hyn yw: * Rydym eisiau dysgu a gwella ein ffordd o weithio gyda chi.</p>	<p>Dulliau a thystiolaeth i gefnogi cyraedd y safon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>Ffyrdd y cynhwyswyd pobl ifanc yn y broses hon (Gweler esiamplau yn y pecyn i'ch helpu)</p>	<p>WEDI CWRDD </p>	<p>HEB GWRDD X</p>
<p>Byddwn yn: <i>Edrych ar ein ffordd o weithio gyda chi a sut i'w wella.</i></p> <p>Sut: Tystiolaeth o adborth gan blant a phobl ifanc a chamau a gymerwyd i weithredu ar yr adborth.</p>				
<p><i>Gofyn i chi beth sydd wedi mynd yn dda a beth sydd angen ei newid.</i></p> <p>Tynnu sylw at yr hyn y dylid ei newid yn dilyn argymhellion plant a phobl ifanc a'r camau yr ydych yn mynd i'w cymryd i fynd i'r afael â'r rhain.</p>				
<p><i>Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i sut y byddwn ni'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.</i></p> <p>Dangos tair ffordd y mae barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar y gwasanaeth / mudiad.</p>				

Adnoddau

Pecyn Gwerthuso Barnardos: Canllaw Ymarferol i Werthuso Prosiect

www.barnardos.org.uk/resources.htm

Kirby, Perpetua 2004 *Measuring the Magic: Evaluating and Recognising Young People's Participation in Public Decision-making* Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Carnegie.

www.carnegieuktrust.org.uk/cypi/home (Mae'n cynnwys rhestr gyfeirio ddefnyddiol)

Fframwaith ar gyfer Partneriaeth Merthyr Tudful, 2005,
Participation

Strategy, Participation Toolkit and Participation Promise

Certificate. I gael mwy o wybodaeth am L2C cysyllter â: 01685

353953 neu anfonwch e-bost at merthyr@trosgynnal.org.uk

Monitoring and Evaluation in Children and Young People's Partnerships in England 2004 Yr Adran Addysg a Sgiliau, Yr Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol.

Pennod 6 tt. 64 -72.

Achub y Plant 2003 *Toolkits: A Practical Guide to Assessment Monitoring, Review and Evaluation*, Achub y Plant.

Achub y Plant 2006 *The Spider Tool: Lessons Learned, & Updated Spider Tool and Facilitator's Guide*, Achub y Plant.

Achub y Plant 2006 *Updated Spider Tool*, Achub y Plant.

Achub y Plant 2006 *The Spider Tool: Facilitator's Guide*, Achub y Plant.

Treseder P, Crowley A. 2001 *Taking the Initiative: Promoting Children and Young People's Decision-Making in Wales*,

Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Carnegie www.carnegieuktrust.org.uk

Cynghrair Hawliau Plant Lloegr *Ready Steady Change Participation* Llyfrgell www.crae.org.uk

Hear By Right Yr Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol

www.nya.org.uk Fframwaith Safonau Cyfranogaeth a ddefnyddir gan fudiadau ieuencid gwirfoddol a statudol yn Lloegr